OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 633 (Cy.69)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 2(2), 5(4), 12 a 17(2) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2013.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**4**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygiadau i Reoliadau 1992**

**2.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2 o Reoliadau 1992, ar ôl y diffiniad o "the Act" mewnosoder—

> ""armed forces independence payment" means an armed forces independence payment under the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011;"(**5**)

(**1**) 1948 p. 29.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) 2010 mccc 2.
(**4**) O.S. 1992/2977.
(**5**) O.S. 2011/517.

**3.** Yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion)—

(a) ar ôl paragraff 4 mewnosoder—

"**4A.** Any armed forces independence payment.";

(b) ym mharagraff 11, ar ôl "Income Support Regulations" (specified provisions)" mewnosoder—

"save for paragraph 16(cc)";

(c) ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**11A.** Any guaranteed income payment referred to in article 15(1)(c) of the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011.

**11B.** Subject to paragraph 31, £10 of any survivor's guaranteed income payment referred to in article 29(1)(a) of the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011 and, if the amount of that payment has been abated to less than £10 by a pension falling within article 39(1)(a) of that Order, so much of that pension as would not, in aggregate with the amount of any survivor's guaranteed income payment disregarded, exceed £10."; ac

(d) ym mharagraff 31, yn lle "paragraph 11", rhodder "paragraphs 11 and 11B".

**Diwygiadau i Reoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**

**4.** Yn rheoliad 14 o Reoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011(**6**) (proses yr asesiad modd)—

(a) ar ddiwedd paragraff (4)(c), hepgorer "a";

(b) ar ddiwedd paragraff (4)(ch) yn lle'r atalnod llawn rhodder ";"; ac

(c) ar ôl paragraff (4)(ch) mewnosoder—

"(d) diystyru yn llawn unrhyw daliad incwm gwarantedig y cyfeirir ato yn erthygl 15(1)(c) o Orchymyn y Lluoedd Arfog (Cynllun Iawndal) 2011; a

(dd) diystyru yn llawn unrhyw daliad annibyniaeth y lluoedd arfog a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011.".

**Diwygiadau i Reoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

**5.** Yn rheoliad 16 o Reoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011(**7**)(proses yr asesiad modd)—

(a) ar ddiwedd paragraff (4)(c), hepgorer "a";

(b) ar ddiwedd paragraff (4)(ch) yn lle'r atalnod llawn rhodder ";"; ac

(c) ar ôl paragraff (4)(ch) mewnosoder—

"(d) diystyru yn llawn unrhyw daliad incwm gwarantedig y cyfeirir ato yn erthygl 15(1)(c) o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011; a

(dd) diystyru yn llawn unrhyw daliad annibyniaeth y lluoedd arfog a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011.".

(**6**) O.S. 2011/962 (Cy.136).
(**7**) O.S. 2011/963 (Cy.137).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

15 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("Rheoliadau 1992"), a Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011 y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel ("y Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol").

Mae Rheoliadau 1992 yn ymwneud ag asesu gallu person i dalu am lety a drefnir gan awdurdodau lleol o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 1992 i ddiystyru unrhyw daliad annibyniaeth y lluoedd arfog yn ei gyfanrwydd a thaliad incwm gwarantedig yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag yn rhannol yn unig, wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion at ddibenion asesu gallu person i dalu am y llety hwnnw. Mae taliad annibyniaeth y lluoedd arfog yn daliad a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Iawndal) 2011. Mae taliad incwm gwarantedig yn daliad misol i ddigolledu am golli'r gallu i ennill a wneir pan fo'r prif achos o anaf neu salwch o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Rheoliadau 1992 i ddiystyru'r £10 cyntaf o daliad incwm gwarantedig goroeswr a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011. Mae taliad incwm gwarantedig goroeswr yn daliad a wneir tan farwolaeth priod, partner sifil neu ddibynnydd mewn oed sy'n goroesi.

Mae'r Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol yn ymwneud ag asesu gallu person i dalu am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl a drefnir gan awdurdod lleol o dan Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn diwygio rheoliadau 14 ac 16 o'r Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol yn y drefn honno i ddiystyru unrhyw daliad incwm gwarantedig ac unrhyw daliad annibyniaeth y lluoedd arfog yn eu cyfanrwydd wrth gyfrifo gallu person i dalu am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Strategaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.